Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-09-11 : 31 Hydref 2011**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol**

**CLA47 – Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Y weithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 18 Hydref 2011
**Fe'u gosodwyd**: 18 Hydref 2011
**Yn dod i rym ar**: 8 Tachwedd 2011

**Busnes arall**

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Addysg**

Trafododd y Pwyllgor bapur gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer diwygiadau i'r Bil Addysg, a osodwyd gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Cyfeiriodd y papur hefyd at Ddatganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30 ynghylch y pwerau y mae'n eu hargymell i'w rhoi i Weinidogion Cymru drwy'r Bil Lleoliaeth.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r diwygiadau i'r Bil Addysg yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn rhai materion sylweddol, ond bod y Bil wedi symud ymlaen i'r fath raddau nad oedd yn caniatáu i'r Cynulliad graffu arno mewn manylder.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn seiliedig ar y materion a nodir yn y papur a thrafodaeth y Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gyflwyno'r llythyr i sylw Aelodau'r Cynulliad i lywio'r drafodaeth ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Tachwedd.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**CLA36 – Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlenni 5 ac 8) (Cymru a Lloegr) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 27 Medi 2011 ar rinweddau Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlenni 5 ac 8) (Cymru a Lloegr) 2011.

**CLA37 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 27 Medi 2011, a oedd yn mynegi pryder bod y Rheoliadau wedi cael eu gosod yn agos iawn at y dyddiad dod i rym ar gyfer polisi newydd mor bwysig a hysbysodd y Gweinidog am adroddiad y Pwyllgor ynghylch rhinweddau Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2011.

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Alan Trench, Uwch Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus, yr Uned Gyfansoddiadol, Coleg Prifysgol Llundain.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn i'r Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**31 Hydref 2011**